**Pwyllgor Diwylliant 10-02 (p.2)**

Dyddiad: 15 Mai 2002

Amser: 9.00 - 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**ARGYMHELLION (Fel y cytunwyd arnynt eisoes mewn Pwyllgor)**

Gofynnir i'r Pwyllgor roi ystyriaeth i'r rhestr o argymhellion a blaenariaethau y cytunwyd arnynt eisoes mewn Pwyllgor (gweler isod) a gwneud sylwadau arni.

- Dylid cael caniatâd cynllunio cyn newid statws annedd parhaol yn dy gwyliau. Dylid rhoi ystyriaeth i hyn yn yr ymgynghoriad ar y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.

- Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r syniad o gyflwyno 'Pecynnau Croeso' i ddarpar-fewnfudwyr i Gymru.

- Lle bo gwrthdaro rhwng anghenion y cymunedau Cymraeg eu hiaith ac anghenion y mewnfudwyr, anghenion y gymuned ddylai gael blaenoriaeth.

- O ran safoni'r Iaith Gymraeg, roedd y Pwyllgor o blaid cryfhau gweithgareddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn hytrach na sefydlu corff newydd.

- Mae angen creu cymunedau cynaliadwy heb wahaniaethu yn erbyn hawliau dynol yr unigolyn.

- Mae gwella isadeiledd cludiant yn ffactor hanfodol a fydd o fantais i'r iaith.

- Dylid cynnal archwiliad o'r stoc tai.

- Dylai'r Cynulliad, ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ddatblygu strategaeth genedlaethol ar yr iaith Gymraeg gyda mesurau arbennig ar gyfer y cadarnleoedd Cymraeg eu hiaith ac yng nghyd-destun cyfle cyfartal.

- Mae angen gwell data ar ddefnyddio’r iaith Gymraeg ac ar yr agweddau at yr iaith.

- Dylid cryfhau gwaith y Mentrau Iaith.

- Gall strategaeth iaith Cyngor Sir Caerfyrddin fod yn lasbrint i gynllunio ieithyddol yr Awdurdodau Lleol.

- Croesewid cronfa ar gyfer busnesau cymunedol ledled Cymru. Dylai Awdurdod Datblygu Cymru (WDA), ELWa a Bwrdd yr Iaith Gymraeg arwain y ffordd o ran ei sefydlu.

- Byddai hybu dwyieithrwydd mewn twristiaeth yn helpu i gynyddu hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig.

- Dylid helpu pobl frodorol (Cymraeg neu Saesneg eu hiaith) i gael tai a gwaith yn eu cymunedau eu hunain.

- Dylid darparu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer yr henoed, cleifion a phlant ifanc yn eu dewis iaith.

- Dylid diffinio Dwyieithrwydd fel a ganlyn:

*'Mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog fe fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu ac yn cael eu trin yn gyfartal. Ystyr Cymru ddwyieithog yw gwlad lle mae pobl yn gallu dewis byw eu bywydau trwy gyfrwng un neu'r ddwy iaith; gwlad lle mae presenoldeb dwy iaith genedlaethol, ac ieithoedd a diwylliannau amrwyiol eraill yn ffynhonnell balchder a nerth'.*

- Rhaid i strategaeth TGCh y Cynulliad gynnwys pob agwedd ar yr Iaith Gymraeg.

- Croesawodd y Pwyllgor 'Polisi Cynllunio Cymru' a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fel cam cadarnhaol at ddiogelu cymunedau'r cadarnleoedd ac at sefydlu'n glir yr egwyddor bod yr iaith Gymraeg yn ffactor wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

- Gallai Canolfannau Addysg i Oedolion Gwlad y Basg fod yn fodel i Gymru; dylid datblygu strategaeth genedlaethol.

- Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y 'blynyddoedd cynnar' yn elfen hanfodol yn

nyfodol yr iaith Gymraeg a dylai fod ar gael mewn cymunedau lleol.

- Dylai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ofyn i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru lunio cynigion ar gryfhau eu rôl a'u cylch gorchwyl er mwyn ymgorffori ystyriaethau o ran yr iaith Gymraeg mewn cynlluniau datblygu economaidd, yn enwedig yn ardaloedd Amcan 1.

- Dylid gofyn i adrannau’r Llywodraeth, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, a chyrff nad ydynt yn atebol i'r Cynulliad fel S4C a'r BBC ystyried datganoli i'r rhanbarthau wrth iddynt wneud penderfyniadau rheoli a phenderfyniadau strategol.

- Mae gan ddwyieithrwydd fanteision economaidd.

- Dylid blaenoriaethu gwasanaethau cyfieithu, gyda dogfennau y mae gofyn penderfynu arnynt yn cael y flaenoriaeth dros bapurau cefndir

- Mae angen rheoleiddio'r diwydiant cyfieithu yn fwy trylwyr; dylai darpar-gyfieithwyr sefyll arholiad a dod yn aelod o gorff proffesiynol.

- Os oes angen cynhyrchu dogfennau'n ddwyieithog, yna dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gael eu cynhrychu ar yr un pryd.

- Dylai fod yna gyfeirlyfr blynyddol o gyfieithwyr achrededig a fyddai hefyd yn enwi meysydd cyfieithu arbenigol.

- Dylai'r Pwyllgor Addysg Dysgu Gydol Oes annog ELWa i ddechrau trafodoaethau â Phrifysgol Cymru ynghylch datblygu cwrs hyfforddi cenedlaethol i gyfieithwyr proffesiynol.

- Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru ddatblygu strategaeth gyfieithu genedlaethol. Dylai'r strategaeth gynnwys safoni a rheoleiddio, hyfforddiant a chymwysterau, llwybrau gyrfaoedd a datblygiadau mewn Technoleg Gwybodaeth.

- Dylai'r Cynulliad arwain y ffordd yn strategol a llunio'r polisi ar gyfer yr iaith.

- Dylai'r Iaith Gymraeg fod yn thema drawsbynciol yn y Cynulliad a dylai gael ei hategu gan uned bwrpasol.

- Dylai fod gan bob Pwyllgor y cyfrifoldeb dros yr Iaith Gymraeg ond dylai'r Pwyllgor Diwylliant fod yn gyfrifol am adolygu a datblygu polisi iaith.

- Dylid cryfhau a chadw Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel y brif asiantaeth ar gyfer cynllunio ieithyddol a dylai fod ganddi ran weithredol wrth ddatblygu partneriaethau rhwng awdurdodau lleol a'r Mentrau Iaith.

**BLAENORIAETHAU (Fel y cytunwyd arnynt eisoes mewn Pwyllgor)**

- Allfudo a'r rhesymau pam fod pobl am adael:-

  Yr economi

  Argaeledd tai

  Ansawdd bywyd a'r gwasnaethau sydd ar gael

- Creu cymunedau cynaliadwy mewn ardaloedd y mae pobl yn ymadael â hwy.

- Cynllunio Ieithyddol

- Trosglwyddo iaith mewn teuluoedd.

- Defnyddio'r iaith mewn cymunedau a'i gwneud yn iaith fyw, cynyddu'r nifer sy'n deall ac yn siarad yr iaith ac yn dewis ei defnyddio.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Mai 2002**